

**COFNODION Y CYFARFOD O
FWRDD IECHYD PRIFYSGOL CWM TAF MORGANNWG
GYNHALIWYD DDYDD IAU 28 TACHWEDD 2019
YN NHŶ YNYSMEURIG, PARC HEN LOFA'R NAVIGATION,
ABERCYNON**

AELODAU YN BRESENNOL:

Marcus Longley	– Cadeirydd
Sharon Hopkins	– Prif Weithredwr (dros dro)
Maria Thomas	– Is-gadeirydd
Alan Lawrie	– Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl
Anne Phillimore	– Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol (dros dro)
Dilys Jouvenat	– Aelod Annibynnol
Greg Dix	– Cyfarwyddwr Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gofal Cleifion
Ian Wells	– Aelod Annibynnol
James Hehir	– Aelod Annibynnol
Jayne Sadgrove	– Aelod Annibynnol
Keiron Montague	– Aelod Annibynnol
Kelechi Nnoaham	– Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd
Mel Jehu	– Aelod Annibynnol
Nicola Milligan	– Aelod Annibynnol
Paul Griffiths	– Aelod Annibynnol
Phillip White	– Aelod Annibynnol
Nick Lyons	– Cyfarwyddwr Meddygol
Ruth Treharne	– Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad
Steve Webster	– Cyfarwyddwr Cyllid
Liz Wilkinson	– Cyfarwyddwr Therapiau a Gwyddorau Iechyd

ERAILL YN Y CYFARFOD:

John Palmer	– Prif Swyddog Gweithredol
Georgina Galletly	– Cyfarwyddwr Llywodraethu / Ysgrifennydd y Bwrdd (dros dro)
Cathy Moss	– Prif Swyddog Cyngor iechyd Cymuned Cwm Taf Morgannwg (am ran o'r cyfarfod)
Stephen Harrhy	– Prif Gomisiynydd Gwasanaethau Ambiwylans (am ran o'r cyfarfod)
Chris Turner	– Pwyllgor y Gwasanaeth Ambiwylans Brys (am ran o'r cyfarfod)
Ana Llewellyn	– Cyfarwyddwr Gwellu Mamolaeth (am ran o'r cyfarfod)
Anju Kumar	– Gynaecolegydd ac Obstetrydd Ymgynghorol (am ran o'r cyfarfod)

Rhif yr Eitem ar yr Agenda 1.5.1a

- | | |
|---------------|--|
| Jo Hilborne | – Cyfarwyddwr Clinigol, Obstetreg a Gynaecoleg (am ran o'r cyfarfod) |
| Tarek Allouni | – Rheolwr y Gyfarwyddiaeth, Obstetreg a Gynaecoleg (am ran o'r cyfarfod) |
| Jane Phillips | – Pennaeth Cynorthwyol Bydwreigiaeth (am ran o'r cyfarfod) |
| David Murray | – Aelod o'r Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth (am ran o'r cyfarfod) |
| Amy Meek | – Hyfforddai Graddedig |
| Tricia Thomas | – Cynorthwydd Gweithredol i'r Prif Weithredwr (am ran o'r cyfarfod) |
| Emma Walters | – Swyddog Llywodraethu Corfforaethol/Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor (am ran o'r cyfarfod) |

HB/19/135

CROESO A CHYFLWYNIADAU

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod, gan gynnwys L Wilkinson, P White, N Lyons ynghyd â C Moss, cydweithwyr o Deloitte ac A Meek.

NODODD Aelodau y bydd y rhai ddaeth yn ail yng ngwobrau cenedlaethol GIG Cymru yn ymuno ag Aelodau'r Bwrdd amser cinio, ynghyd â'r Tîm Gwasanaethau Mamolaeth.

HB/19/136

YMDDIHEURIADAU ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriad absenoldeb gan S Scott Thomas. **NODODD** Aelodau y bydd John Palmer yn hwyr yn cyrraedd.

HB/19/137

DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Nid oedd yr un datganiad o fuddiant.

HB/19/138

COFNODION HEB EU CADARNHAU Y CYFARFOD O'R BWRDD IECHYD GYNHALIWYD AR 26 MEDI 2019 A CHOFNODION Y CYFARFOD 'MEWN PWYLLGOR' HEB EU CADARNHAU GYNHALIWYD AR 26 MEDI 2019

CYMERADWYODD Aelodau gofnodion y cyfarfod o'r Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd ar y 26ain o Fedi 2019, fel cofnod gwir a chywir.

CYMERADWYODD Aelodau gofnodion y cyfarfod 'Mewn Pwyllgor' o'r Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd ar y 26ain o Fedi 2019, yn amodol ar y newidiadau canlynol i'r cofnod o'r rheiny oedd yn y cyfarfod:

Dylai *N Lyons*, Cyfarwyddwr Meddygol fod wedi ei gofnodi fel *N Lyons*,
Darpar Gyfarwyddwr Meddygol

HB/19/139

COFNODION GWEITHREDU

DERBYNIODD Aelodau'r Cofnodion Gweithredu gan **NODI'R** diweddariadau canlynol:

HB/18/150 Tudalen 2, Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (BAF)

NODODD Aelodau fod Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd i'w fonitro gan y Pwyllgor Archwilio, felly gellir ystyried y weithred 'wedi ei chau'.

NODODD Aelodau fod y Fframwaith diwygiedig i'w ystyried gan y Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod nesaf yn Ionawr 2020.

HB/19/122 Tudalen 3, Fframwaith ar gyfer Datblygu Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) 2020-2023

NODODD Aelodau fod elfennau Digidol ac Ymgysylltu o'r Cynllun Tymor Canolig Integredig i'w trafod yn Sesiwn Datblygu'r Bwrdd yn Rhagfyr 2019, cyn i'r IMTP ddod gerbron y cyfarfod o'r Bwrdd yn Ionawr 2020 i'w ystyried.

HB/19/128 Tudalen 4, Y Dangosfwrdd Perfformiad Integredig

Wrth ymateb i bwynt a godwyd uchod am reoli oedi wrth drosglwyddo gofal, **NODODD** Aelodau y bydd A Lawrie yn cyfarfod â chydweithwyr o'r awdurdod lleol i drafod y cynllun ar gyfer y gaeaf. **CYTUNODD** R Treharne i wirio blaengynllun gwaith y Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a Gweithlu er mwyn cadarnhau pryd y bydd gofal heb ei drefnu a chynllunio ar gyfer y gaeaf yn cael eu trafod.

HB/19/140

MATERION SY'N CODI

Ni chodwyd unrhyw faterion eraill.

HB/19/141

ADRODDIAD Y CADEIRYDD A GOSOD Y SÊL GYFFREDIN

Cyflwynodd Marcus Longley ei adroddiad, a rhoddodd ddiweddariad ar y prif feysydd a gynhwyswyd yn yr adroddiad.

NODODD Aelodau fod digwyddiad ymsefydlu'n cael ei ddatblygu ar gyfer Aelodau annibynnol newydd eu penodi, ac y bydd adborth o'r sesiwn gychwynnol yn cael ei roi i gyfarfod o'r Bwrdd yn y dyfodol, ac yn cael ei ddefnyddio i lywio sut mae sesiynau Ymsefydlu Aelodau Annibynnol yn cael eu datblygu.

PENDERFYNODD y Bwrdd:

- **NODI'R** adroddiad.

Rhif yr Eitem ar yr Agenda 1.5.1a

- **CYMERADWYO** Gosod y Sêl Gyffredin gan **NODI** y bydd prwpas y contract sy'n ymwneud ag eitem 258 yn cael ei nodi yn y cyfarfod nesaf.

HB/19/142

ADRODDIAD Y PRIF WEITHREDWR

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad i Aelodau, a **NODODD** y Bwrdd y prif feysydd a amlygir ynddi.

NODODD Aelodau fod Matrics Aeddfedrwydd yn cael ei ddatblygu i ddarparu dull o asesu cynnydd yn y rhaglen gwelliannau, mewn ymateb i ymyrraeth wedi'i thargedu. Bydd y Matrics Aeddfedrwydd, ynghyd â'r Cynllun Datblygu Sefydliadol, yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd er mwyn ei drafod unwaith iddo gael ei gwblhau.

NODODD Aelodau y bydd y Prif Weithredwr yn cynnal dwy sesiwn adborth yn dilyn dadansoddiad o'r Arolwg Staff. **CYTUNWYD** y bydd Aelodau o'r Bwrdd, cynrychiolwyr o undebau llafur a'r grŵp rheoli ehangach yn cael eu gwahodd i'r sesiynau hyn. Yn ogystal, **NODODD** Aelodau y bydd cynrychiolydd o'r Tîm Cyfathrebu yn ymuno â'r Pennaeth Nyrsio wrth iddo siarad â staff nyrsio fel grŵp.

Nododd Aelodau fod rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru yn nalgylch BIP CTM, a phwysleisiwyd mor bwysig yw hi bod y Pwyllgor Gofal Sylfaenol a Chymunedol yn ystyried y broblem hon.

Hysbysodd S Hopkins Aelodau y bydd Model Gweithredu yn diffinio'r modd y bydd y sefydliad yn gweithredu, ac y bydd gwella iechyd cyhoeddus yn greiddiol i hyn.

NODODD Aelodau bwysigrwydd dylanwadu ar gynnydd trwy gyfarfodydd o'r Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf posibl, drwy weithio mewn partneriaeth, i wella iechyd poblogaeth BIP CTM.

Cyfeiriodd J Palmer at y gwaith sy'n cael ei wneud o ran risg cardiofasgwlar, y ddeddf gofal gwrthgyfartal, diagnosis o ganser cyfnod cynnar a chyflyrau cronig. **NODODD** Aelodau'r heriau sy'n bodoli o ran cyfathrebu effeithiol ac ymgysylltu â'r gymuned.

PENDERFYNODD y Bwrdd: **NODI'R** diweddariad

HB/19/143

CYMERADWYO'R RHEOLAU SEFYDLOG MODEL DIWYGIEDIG

Cyflwynodd G Galletly yr adroddiad oedd yn gofyn cymeradwyaeth y Bwrdd Iechyd i fabwysiadu Rheolau Sefydlog Model Llywodraeth Cymru.

NODODD Aelodau fod hyn yn ofyniad Cymru gyfan.

Diolchodd M Thomas i Ysgrifennydd y Bwrdd a holodd am y cyfeiriad yn y Rheolau Sefydlog at 'Bwrdd Iechyd Lleol'. **NODODD** Aelodau mai teitl gweithredol swyddogol BIP CTM yw 'Bwrdd Iechyd Lleol'.

NODODD Aelodau fod cylch gorchwyl y Pwyllgor Iechyd Sylfaenol a Chymunedol, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau wedi ehangu.

NODODD Aelodau y bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i gynnal y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys (EASC) gan fabwysiadu Rheolau Sefydlog newydd i'r Pwyllgor. **NODWYD** y bydd cefnogaeth ysgrifenyddol yn cael ei darparu gan y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys.

NODODD Aelodau fod dyddiad cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu/Llywodraethu Gwybodaeth (ICT/IG) a'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol wedi ei bennu ar ddechrau'r flwyddyn newydd.

Wrth drafod Cylch Gorchwyl y Pwyllgor fe'i **NODWYD** bod camgymeriad yn nheiti y Pwyllgor Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu/Llywodraethu Gwybodaeth (ICT/IG) ar dudalen 8 (dogfen 3.1.3.1), a bod angen cynnwys cyfeiriad at Ddeddf Elusennau 2011 yng nghylch gorchwyl y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol. **CYTUNWYD** y bydd y ddwy ddogfen yn cael eu diweddarau yn dilyn y cyfarfod o'r Bwrdd.

Oherwydd eu rôl yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd, trafododd Aelodau mor bwysig yw hi bod Pwyllgorau'r Bwrdd yn gweithredu systemau llywodraethu cadarn, a bod ganddynt yr adnoddau angenrheidiol i wneud hynny.

NODWYD bod y termau 'Aelodau (o'r Bwrdd) Sydd ddim yn Swyddogion' ac 'Aelodau Annibynnol' (IMs) yn cael eu defnyddio yn y Rheolau Sefydlog, ac er bod y ddau'n golygu'r un peth, defnyddir y term 'Aelod Annibynnol' (IM) ar hyn o bryd.

PENDERFYNODD y Bwrdd:

- **GYMERADWYO** mabwysiadu'r Rheolau Sefydlog Model Diwygiedig ac Atodlenni atodol.
- **CYMERADWYO** Cylch Gorchwyl pob Pwyllgor a Grŵp/Fforwm, gan nodi bod angen gwneud diwygiadau bach i derminoleg, fel y nodwyd uchod;

CYMERADWYO'R ADRODDIAD CYDRADDOLDEB BLYNYDDOL

Cyflwynodd A Phillimore yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol, a roddodd drosolwg o gynnydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

NODODD Aelodau baragraff 2, prif gyflawniadau'r flwyddyn ddiwethaf ac, ym mharagraff 2.6, effaith bwysig hyn.

NODODD Aelodau bod ffocws arbennig ar sut mae staff yn cyfathrebu, er mwyn sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r dulliau gwahanol o gyfathrebu sydd ar gael.

NODODD Aelodau mai'r mater pwysicaf i'r Bwrdd yw ymwybyddiaeth o Safonau'r Gymraeg, a fyddai'n heriol o ran cydymffurfiaeth. Llongyfarchodd yr Is-gadeirydd y tîm bach sy'n ymgymryd â'r gwaith pwysig hwn.

Gofynnodd Aelodau a oedd y Bwrdd Iechyd wedi cysylltu â Chyngor Iechyd Cymuned CTM (CHC), a **CHYTUNODD** A Phillimore i wirio a sicrhau bod hyn wedi ei gymryd i ystyriaeth.

Wrth gydnabod bod llawer o waith gwych wedi cael ei wneud yn ystod y flwyddyn, awgrymodd J Sadgrove y gellir manylu ymhellach ar yr heriau sy'n parhau, a'r modd y mae'r rheiny'n cael eu blaenoriaethu. Hysbysodd A Phillimore Aelodau i drafodaethau gael eu cynnal mewn perthynas â hyn â'r Comisiynydd Cydraddoldebau gyda'r bwriad o ddatblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

PENDERFYNODD y Bwrdd: **GYMERADWYO'R** Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol.

GOFAL NYRSIO A ARIENNIR (FNC) - CYMERADWYO'R ESTYNIAD A CHODIADAU ARFAETHEDIG

Cyflwynwyd yr adroddiad hwn ar y cyd gan G Dix ac S Webster. Nod hwn oedd ceisio cymeradwyaeth i gynnig i ymestyn y mecanwaith codiadau chwyddiannol am gyfnod pellach o ddwy flynedd, ynghyd â'r gyfradd Gofal Nyrsio a Ariennir gan y GIG am 2019/20 a 2020/21.

NODODD Aelodau fod Gofal Nyrsio a Ariennir yn cyfeirio at gartrefi gofal yn rhoi gofal nyrsio cofrestredig i gleifion sy'n bodloni'r gofynion.

PENDERFYNODD y Bwrdd:

- **GYMERADWYO'R** estyniad i'r dull presennol o dalu dros y 2 flynedd nesaf.
- **CYMERADWYO'R** cyfraddau Gofal Nyrsio a Ariennir am 2019/20 a 2020/21.

HB/19/146

CYMERADWYO ACHOS BUSNES RHAGLEN Y RHWYDWAITH TRAWMA MAWR (MTN)

Cyflwynodd J Palmer yr adroddiad a rhoddodd ddiweddariad ar ddatblygiad y Rhwydwaith Trawma Mawr ar gyfer De Cymru, Gorllewin Cymru a De Powys, a chyflwynodd yr Achos Busnes ar gyfer Rhwydwaith Trawma BIP CTM.

NODODD Aelodau fod yr adroddiad wedi ei dderbyn gan y Byrddau Iechyd perthnasol i'w drafod a'i gymeradwyo. **NODODD** Aelodau y gobeithir i Rwydwaith Trawma De Cymru fod yn weithredol o fis Ebrill 2020.

NODODD Aelodau y disgwylir buddsoddiad pellach gan Lywodraeth Cymru.

O ran y paratodau, **NODODD** Aelodau fod glanfa i hofrenyddion ar safle Ysbyty Brenhinol Morgannwg, ac y bydd un ar safle Ysbyty'r Tywysog Siarl yn y flwyddyn newydd. O ran safle Ysbyty Tywysoges Cymru, **NODWYD** bod y lanfa mewn cae cyfagos.

NODODD Aelodau y cynhelir cynadleddau wythnosol dros y ffôn am y risgiau posibl o ran recriwtio. Esboniodd J Palmer i'r risgiau gael eu dwyn at sylw Bwrdd y Rhaglen. **NODODD** Aelodau hefyd fod J Palmer mewn trafodaethau â chydweithwyr er mwyn sicrhau nad oes oedi wrth ddychwelyd cleifion i'w hysbytai lleol.

Datganodd P Griffiths fuddiant yn yr eitem hon, gan ei fod yn Aelod o Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, a'i fod felly wedi bod yn rhan o drafodaethau am y pwnc o'r blaen.

Cyfleodd N Lyons ei gefnogaeth i'r Rhwydwaith Trawma Mawr o ran gwasanaeth diogel i boblogaeth BIP CTM, a nododd bwysigrwydd gweithio'n agos â Byrddau Iechyd eraill.

Holodd y Cadeirydd am lefel yr hyder mewn perthynas â BIP CTM a'i allu i oresgyn yr heriau sy'n bodoli mewn perthynas ag adsefydlu cleifion. Esboniodd J Palmer na fydd unrhyw broblemau'n codi yn y flwyddyn gyntaf, ond y bydd angen Achos Busnes pellach yn y blynyddoedd i ddod.

Hysbysodd C Moss Aelodau am y pryderon ariannol a godwyd gan y Cyngor Iechyd Cymuned mewn perthynas â goblygiadau cost posibl i

Rhif yr Eitem ar yr Agenda 1.5.1a

gleifion BIP CTM, y nifer o gleifion sy'n debygol o gael budd o'r Rhwydwaith, ac a yw'r Rhwydwaith yn werth am arian. Cydnabu S Webster y bydd hyn yn her i BIP CTM, ac y bydd rhaid dychwelyd at flaenoriaethau buddsoddi, ond nododd fod y datblygiad hwn yn un pwysig y dylid ei gefnogi.

NODODD Aelodau y bydd cleifion trawma mawr yn cael eu brysbennu, a'u hanfon i'r Ganolfan Trawma Mawr yn ôl eu hardal Bwrdd Iechyd.

NODODD Aelodau hefyd faint o waith sydd wedi ei wneud rhwng BIP CTM a chydweithwyr mewn Byrddau Iechyd cyfagos, er mwyn sicrhau y bydd y cymunedau sy'n cael eu gwasanaethu yn cael budd.

Atgoffodd S Hopkins Aelodau na wyddys y dyraniad ar gyfer y flwyddyn nesaf ar hyn o bryd, ond bod cynllun amlinellol yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP).

Argymhellodd S Hopkins i Aelodau'r Bwrdd eu bod yn cymeradwyo'r Achos Busnes hwn, gan gydnabod na wyddys eto beth fydd y dyraniad cyllidebol, ac y dylid gwneud y penderfyniad ar y sail y bydd angen buddsoddiad pellach sylweddol yn y flwyddyn ariannol nesaf. Cydnabuwyd y bydd angen trafod y mater hwn mewn cyfarfod arall o'r Bwrdd, unwaith bod y sefyllfa ariannol yn gliriach.

PENDERFYNODD y Bwrdd:

- **GYMERADWYO'R** model rhwydwaith cyffredinol a ddisgrifir yn yr achos (clinigol, gweithrediadau a llywodraethu) gan gynnwys: rôl y Rhwydwaith Cyflawni Gweithrediadau (ODN), a rôl y Bwrdd Iechyd, fel darparwr rhan o'r model gwasanaeth.
- **CYMERADWYO** cynnwys Achos Busnes y Rhaglen yn amodol ar gadarnhad o ddyraniad adnoddau'r GIG ar gyfer 2020/21, a phroses flaenoriaethu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig.

HB/19/147

DEDDF LEFELAU STAFF NYRSIO (CYMRU 2016) AR GYFER WARDIAU MEDDYGOL A LLAWFEDDYGOL ACÍWT I OEDOLION YN DILYN Y CYFRIFIAD CHWEMISOL

Cyflwynodd G Dix yr adroddiad a dywedodd fod Adran 25E o Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) (2016) yn mynnu bod Byrddau Iechyd yn adrodd ar eu cydymffurfiaeth wrth gynnal lefelau staff nyrsio ar gyfer pob ward lawfeddygol a meddygol aciwt i oedolion. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno'r adroddiad lefelau staff nyrsio yn dilyn yr archwiliad aciwtedd ym mis Mehefin 2019 yn rhan o'r broses ailgyfrifo chwemisol.

Rhif yr Eitem ar yr Agenda 1.5.1a

NODODD Aelodau i archwiliad gael ei wneud ym mis Mehefin 2019 dros 30 ward, 10 ar bob safle Ysbyty Cyffredinol Dosbarth, ac o ganlyniad argymhellwyd nad oes angen ailgyfrifo'r lefelau o staff ar wardiau, a bod yr archwiliad yn cael ei ailadrodd ym mis Ionawr 2020. **NODODD** Aelodau fod lefel arwyddocaol o swyddi gwag ar draws y sefydliad, a bod camau rhesymol yn cael eu cymryd i sicrhau bod gan wardiau lefel ddiogel o staff.

Cyfeiriodd N Milligan at bumed dudalen yr adroddiad, sy'n nodi bod angen cyfeirio at nyrsys fel 'cofrestredig' yn hytrach na 'cymwysedig'.

Dywedodd N Milligan fod nifer o drafodaethau wedi eu cynnal o'r blaen mewn perthynas â'r gwahaniaeth mewn oriau gwaith yn Ysbyty Tywysoges Cymru o gymharu â'r oriau gwaith yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac Ysbyty'r Tywysog Siarl, a dywedodd fod angen cadw'r nifer yn gyson ar draws y safleoedd. Sicrhodd G Dix yr Aelodau fod hyn yn y broses o gael ei hadolygu.

NODODD Aelodau nad oes dyddiad wedi ei roi eto ar gyfer ymestyn y Ddeddf i wardiau Iechyd Meddwl, a bod lefelau aciwtedd yn cael eu hystyried wrth adolygu'r lefelau o staff. Mewn perthynas â recriwtio nyrsys o dramor, **NODWYD** y disgwylir y bydd 18-20 nyrs o dramor yn dechrau gweithio yn BIP CTM ym mis Ionawr 2020. Cynghorodd A Phillimore fod nifer o drafodaethau yn cael eu cynnal mewn perthynas ag opsiynau llety, a chymorth i'w helpu i ddod yn rhan o gymunedau lleol.

Cynhaliwyd trafodaeth am y nifer uchel o swyddi gweithwyr cymorth gofal iechyd gwag yn y sefydliad, a **NODWYD** nad adnabuwyd unrhyw broblemau sydd yn atal recriwtio i'r swyddi hynny.

Mewn perthynas â'r modd y gwna nyrsys benderfyniadau am lefelau aciwtedd ar wardiau, dywedodd G Dix fod y lefelau aciwtedd yn argymhellol, a bod nifer o adolygiadau gan gymheiriaid yn cael eu cynnal gan Uwch-nyrsys er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu hasesu'n gywir o ran y lefel o ofal sydd ei hangen arnynt. **NODODD** Aelodau fod gan BIP CTM lefelau uwch o aciwtedd yn ei boblogaeth o gymharu ag ardaloedd eraill o Gymru.

PENDERFYNODD y Bwrdd: **GYMERADWYO'R** lefelau gofynnol o oriau nyrsio yn unol â gofynion y Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru 2016)

HB/19/148

ADOLYGIAD AR Y CYD AROLYGIAETH GOFAL IECHYD CYMRU A SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU O LYWODRAETHU ANSAWDD

Cyflwynodd Kelechi Nnoaham yr adroddiad i Aelodau, oedd yn canolbwyntio ar y trefniadau llywodraethu ansawdd yn BIP CTM.

NODODD Aelodau i 14 argymhelliad gael eu gwneud, a gafodd eu derbyn yn llawn. Cafodd nifer o themâu eu hadnabod yn ogystal.

NODODD Aelodau i drafodaethau dilynol gael eu cynnal ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru am lunio ymateb rheoli'r Bwrdd Iechyd, ac y bydd gwella cynaliadwy yn cael ei wau i mewn i ddatblygiad y Matrics Aeddfedrwydd mewn ymateb i'r argymhellion. Disgwylir y bydd yr ymateb rheoli drafft ar gael i'w drafod yng nghyfarfod Rhagfyr 2019 y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch.

Cynghorodd S Hopkins i'r Bwrdd Iechyd groesawu'r adroddiad, a dywedodd y bydd gwaith yn parhau i gael ei wneud ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod pob darn o waith yn gysylltiedig. **NODODD** Aelodau y bydd y gwaith yn cael ei arwain gan K Nnoaham (Uwch-Swyddog Cyfrifol), ac y bydd angen sgiliau'r holl Dîm Gweithredol i gwblhau'r darn hwn o waith.

Yn dilyn trafodaethau, nododd Aelodau yr angen i newid diwylliant sefydliadol er mwyn datrys y problemau a gafodd eu nodi. **NODODD** Aelodau fod nifer o'r problemau a nodwyd yn y broses o gael eu datrys yn barod, trwy raglenni gwaith gwahanol, e.e. profiad cleifion.

Wrth ymateb i'r cwestiwn a godwyd gan Aelodau ynglŷn â monitro cynnydd, cynghorodd G Galletly y bydd yn cael ei awgrymu bod y Matrics Aeddfedrwydd yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mhob cyfarfod am drosolwg cyffredinol, gyda phob rhan o'r Matrics Aeddfedrwydd yn cael ei dynodi i Bwyllgor Bwrdd am graffu manwl.

PENDERFYNODD y Bwrdd: **NODI'R** adroddiad a'r diweddariad a roddwyd.

HB/19/149

COFRESTR RISG Y SEFYDLIAD

Cyflwynodd G Galletly yr adroddiad, a dywedodd i'r gofrestr risg gael ei diweddarau ar ôl i'r adroddiad gael ei gyflwyno yn y cyfarfod ym mis Medi 2019. **NODODD** Aelodau fod yr adroddiad yn nodi bod dull newydd o reoli risgiau wrthi'n cael ei ddatblygu, ac y byddai cysylltiad agos rhwng hwnnw a'r adolygiad o'r Fframwaith Sicrwydd Ansawdd.

NODODD Aelodau i'r adroddiad argymell tynnu dwy risg oddi ar y gofrestr risgiau ac ychwanegu tair arall.

Cyfeiriodd N Milligan at Risg 34 (staff asiantaeth yn cyflenwi mewn meysydd meddygol a nyrsio), a dywedodd i rai staff llawn amser godi

Rhif yr Eitem ar yr Agenda 1.5.1a

pryderon bod rhai staff asiantaeth yn teimlo nad eu cyfrifoldeb hwy yw hanfodion gofal. Dywedodd G Dix y byddai'n ymchwilio i'r mater.

Cafwyd trafodaeth am yr amserlenni ar gyfer diweddaru'r broses risgiau. **NODODD** Aelodau fod cefnogaeth bwrpasol bellach yn cael ei chynnig i'r Tîm Gweithredol, a bod camau'n cael eu cymryd i benodi Pennaeth Risgiau. Rhagwelwyd y bydd y sefyllfa wedi gwella erbyn mis Medi 2020.

Mewn perthynas â throsglwyddo'r cyfrifoldeb dros 'risgiau' i'r Pwyllgor Archwilio (o'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch), dywedodd P Griffiths y byddai'n croesawu trafodaeth â G Galletly am rôl y Pwyllgor o ran monitro risgiau, a dywedodd fod angen sicrhau bod y Pwyllgor yn cael yr holl wybodaeth sydd ei hangen arno i gyflawni ei gyfrifoldeb.

Cafwyd trafodaeth am Risg 44, a chytunwyd y byddai angen rhagor o eglurder er mwyn canfod a oedd yn ymwneud â rhestrau aros heb eu hadrodd, neu ag apwyntiadau cleifion allanol na chawsant eu trefnu.

PENDERFYNODD y Bwrdd:

- **GYMERADWYO** cofrestr risg y sefydliad;
- **DERBYN** cadarnhad o'r sefyllfa mewn perthynas â Risg 44 yn ei gyfarfod nesaf.

HB/19/150

DIWEDDARIAD AM RAGLEN GWELLA GWASANAETHAU MAMOLAETH

Roedd A Llewellyn, J Hilborne, J Phillips, A Kumar, T Allouni a D Murray yn bresennol ar gyfer yr eitem hon.

Dywedodd G Dix fod llawer iawn o gynnydd wedi ei wneud ers cyhoeddi adroddiad Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a Gynecolegwyr a Choleg Brenhinol y Bydwagedd, a chredwyd y byddai'n fuddiol pe bai'r Tîm yn cael ei wahodd i gyflwyno'r gwaith sydd wedi ei wneud dros y misoedd diwethaf i wella'r sefyllfa.

NODWYD y diweddariadau allweddol canlynol:

- Gwnaed 70 argymhelliad yn ystod yr adolygiad, ac mae un cynllun gweithredu unigol wedi ei ddatblygu ers hynny. Aed i'r afael â rhai materion ar unwaith yn dilyn adborth ar lafar.
- Roedd Panel Trosolwg Annibynnol ar Famolaeth wedi ei sefydlu gan y Gweinidog ar ôl i'r Bwrdd Iechyd gael ei roi mewn Mesurau Arbennig ar gyfer ei Wasanaethau Mamolaeth.
- Cafodd Rhaglen Gwella Gwasanaethau Mamolaeth ei sefydlu, ac roedd tri bwrdd prosiect gwahanol yn rhan o'r Rhaglen hon.

Rhif yr Eitem ar yr Agenda 1.5.1a

- Cafodd Matrics Aeddfedrwydd ei ddatblygu oedd yn cynnwys disgrifyddion naratif ar bob lefel.
- Ers cyhoeddi'r adroddiad, roedd rhagor o adolygiadau/ymweliadau wedi eu cynnal gan Gyngor Iechyd Cymuned CTM, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru. Dywedodd C Moss i Gyngor Iechyd Cymuned CTM ymweld ym mis Medi 2019 hefyd, ac roedd y cleifion wedi dweud iddynt gael profiadau rhagorol.

Wrth ymateb i gwestiwn a godwyd am yr amserlen ar gyfer cyflawni pob un o'r argymhellion, **NODODD** Aelodau yr oedd wedi cymryd chwe blynedd i Ymddiriedolaeth GIG Morecambe Bay, a oedd wedi cael profiadau tebyg, wella ei wasanaethau mamolaeth.

NODODD Aelodau fod BIP CTM wedi gwneud cynnydd sylweddol mewn cyfnod byr o amser hyd yma, a bod y ffocws ar y maes gwasanaeth penodol hwn wedi effeithio, yn anochel, ar gynnydd mewn meysydd eraill.

Croesawodd R Treharne y cyflwyniad, ac anogodd gydweithwyr i sicrhau bod ffocws cytbwys yn cael ei gadw. Nododd hefyd fod help ar gael gan gydweithwyr o'r Bwrdd fel y bo angen.

Mewn perthynas â'r mamau hynny a oedd wedi dewis rhoi genedigaeth mewn Bwrdd Iechyd arall, **NODODD** Aelodau fod 200 o famau wedi rhoi genedigaeth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a bod Bwrdd Iechyd CTM yn cadw golwg agos ar y sefyllfa gyffredinol.

Diolchodd G Dix i gydweithwyr am ddod i'r cyfarfod i gyflwyno eu gwaith.

PENDERFYNODD y Bwrdd: **NODI'R** diweddariad a roddwyd.

HB/19/151

CYFLWYNIAD Y PWYLLGOR GWASANAETHAU AMBIWLANS BRYD

Roedd C Turner a S Harrhy yn bresennol ar gyfer yr eitem hon.

Amlinellodd C Turner nod y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys (y Pwyllgor), a dywedodd y bydd ei aelodaeth yn cynnwys Prif Weithredwyr pob Bwrdd Iechyd, cydweithwyr o Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwylans Cymru, S Harrhy, Prif Gomisiynydd Gwasanaethau Ambiwylans a C Turner ei hun fel y Cadeirydd Annibynnol. **NODODD** yr Aelodau fod y Pwyllgor yn cyfarfod bob dau fis, a bod sesiynau datblygu wedi eu cyflwyno'n ddiweddar.

Rhif yr Eitem ar yr Agenda 1.5.1a

NODODD Aelodau fod y Pwyllgor yn gweithio'n agos ag Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru a'r Gwasanaethau Cludo Cleifion Di-argyfwng, a bod amcanion y Pwyllgor wedi eu gosod gan y Gweinidog.

NODODD y Bwrdd y pwyntiau allweddol canlynol:

- Roedd y Pwyllgor wedi llwyddo i lunio Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) yn ystod 2019 a oedd wedi'i gymeradwyo;
- Ymhlith y prif feysydd ffocws yr oedd ehangu'r Gwasanaeth Adalw a Throsglwyddo Meddygol Brys a'i wneud yn wasanaeth 24/7, a chynnydd yr Adolygiad Melyn;
- Mae Dangosyddion Ansawdd Ambiwlansys yn cael eu cyhoeddi ac maent ar gael i'w gweld ar wefan y Pwyllgor. Derbyniodd Aelodau grynodedb o berfformiad yn erbyn pob maes.

Diolchodd M Longley i S Harrhy a C Turner am y cyflwyniad.

Cafwyd trafodaeth am y berthynas â Gofal Sylfaenol, ac fe'i **NODWYD** bod gwasanaethau tu allan i oriau yn mynd yn gynyddol wydn a bod angen ystyried ymhellach y cysylltiadau rhwng Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru a gwasanaethau 'Yn y Cartref'.

NODODD Aelodau fod Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru wedi rhoi cyflwyniad ym Mhwyllgor Ansawdd a Diogelwch BIP CTM am ei data blynyddol am welliannau a gwersi a ddysgwyd, a **NODWYD** y bydd cyfarfod â chydweithwyr yn yr Ymddiriedolaeth i drafod hyn ymhellach. Croesawodd S Harrhy y dull o fynd i'r afael â'r mater.

Wrth ymateb i gwestiwn am y perfformiad gwael yn Ysbyty Tywysoges Cymru o ran colli oriau wrth i staff drosglwyddo rhwng sifftiau, **NODODD** Aelodau fod gwaith yn cael ei wneud â chydweithwyr Gofal Sylfaenol i fynd i'r afael â hyn.

PENDERFYNODD y Bwrdd: **NODI'R** diweddariad a roddwyd.

HB/19/152

DIWEDDARIAD AM SAFONAU'R GYMRAEG

Cyflwynodd A Phillimore adroddiad i'r Aelodau a oedd yn nodi bod rhaid cydymffurfio â 52 Safon allan o 119 erbyn 30 Tachwedd 2019. **NODODD** Aelodau fod ceisiadau i herio nifer o'r Safonau wrthi'n cael eu cwblhau i'w cyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg erbyn 30 Tachwedd 2019.

NODODD Aelodau fod BIP CTM bellach wedi derbyn ymateb i'r set gyntaf o Safonau yr oedd y Bwrdd Iechyd wedi eu herio, a bod y Bwrdd wrthi'n ystyried effaith hyn ar hyn o bryd. Wrth drafod yr heriau mewn

Rhif yr Eitem ar yr Agenda 1.5.1a

perthynas â chodi nifer y staff dwyieithog, **NODODD** Aelodau y byddai angen trafodaethau pellach am hyn â Chomisiynydd y Gymraeg.

PENDERFYNODD y Bwrdd: **NODI'R** adroddiad.

HB/19/153

DIWEDDARIAD AM GYSYLLTIADAU RHWNG STAFF

Cyflwynodd A Phillimore yr adroddiad.

PENDERFYNODD y Bwrdd: **NODI'R** adroddiad.

HB/19/154

YMYRRAETH WEDI'I THARGEDU: 'RHAGEN AR GYFER GWELLIANNAU PARHAUS YN SGIL YMYRRAETHH WEDI'I THARGEDU'

Cyflwynodd G Galletly yr adroddiad i Aelodau, a dywedodd i gyfarfod gael ei gynnal â Llywodraeth Cymru ar 1 Tachwedd 2019 am statws 'Ymyrraeth wedi'i Thargedu' BIP CTM, ac ychwanegodd nad oedd adborth ffurfiol wedi ei dderbyn eto. **NODODD** Aelodau y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ym mis Ionawr 2020 i drafod cynnydd.

Croesawodd Aelodau'r dull strwythuredig o fynd ati mewn perthynas â'r rhaglen ar gyfer gwelliannau parhaus.

PENDERFYNODD y Bwrdd: **NODI'R** adroddiad.

HB/19/155

PRYDERON (CWYNION, HAWLIADAU A DIGWYDDIADAU DIOGELWCH CLEIFION)

Cyflwynodd G Dix yr adroddiad, a dywedodd i'r Bwrdd Rheoli gymeradwyo defnyddio nifer o gyflenwyr ar gyfer y Prawf Ffrindiau a Theulu.

Mewn perthynas â rheoli cwynion, **NODODD** yr Aelodau fod cynllun ehangach i ddelio â chwynion/pryderon wedi ei ddatblygu i gynorthwyo Cyfarwyddiaethau i leihau'r nifer uchel gwynion heb eu datrys eto, a bod hyfforddiant parhaus yn cael ei ddarparu am ansawdd ymatebion i gwynion.

O ran digwyddiadau difrifol, **NODODD** Aelodau fod canlyniadau adolygiad yr Uned Gyflawni o ddigwyddiadau difrifol yn cael eu hystyried ar hyn o bryd, a bod pecyn cymorth yn cael ei ddatblygu ar gyfer Digwyddiadau Difrifol.

Mewn perthynas â gwaith i wella amseroedd ymateb i gwynion, **NODODD** Aelodau fod 'cynllun ar ddalen' wedi ei lunio a bod hwnnw wedi ystyried gwella hyfforddiant ac addysg ynghyd â chynnal rhagor o drafodaethau

Rhif yr Eitem ar yr Agenda 1.5.1a

wyneb yn wyneb yn hytrach na darparu ymateb ysgrifenedig bob tro. Dywedodd G Dix y byddai'n fodlon rhannu'r cynllun ag Aelodau o'r Bwrdd y tu allan i'r cyfarfod.

PENDERFYNODD y Bwrdd: **NODI'R** adroddiad.

HB/19/156

Y DANGOSFWRDD PERFFORMIAD INTEGREDIG

Cyflwynodd R Treharne yr adroddiad a thynnodd sylw at y materion allweddol canlynol:

- Targedau Atgyfeirio a Thriniaeth - Roedd y Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a'r Gweithlu wedi gwneud llawer iawn o waith craffu manwl, a nodwyd bod y Bwrdd Iechyd wedi colli momentwm o ran cyrraedd targedau gan i gleifion gael eu hychwanegu at restrau aros yn dilyn y gwaith i ddelio â rhestrau aros nad adroddwyd amdanynt. Nodwyd hefyd fod cynllun adfer ar waith bellach i fynd i'r afael â'r sefyllfa;
- Gofal heb ei drefnu - Mae heriau yn y maes hwn o hyd, sy'n effeithio ar berfformiad;
- Mae perfformiad o ran Oedi wrth Drosglwyddo Gofal wedi gwaethygu hefyd;
- Mae gwelliannau wedi bod o ran Archwiliadau Endosgopi, ac o ran Apwyntiadau Cleifion Allanol Na Chawsant eu Trefnu, ond fe godwyd pryderon yn y Pwyllgor Perfformiad a Gweithlu am y data Apwyntiadau Cleifion Allanol Na Chawsant eu Trefnu ar gyfer Ysbyty Tywysoges Cymru;
- Mae'r perfformiad yn wael o hyd mewn gwasanaethau strôc a chanser. Bydd y Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a'r Gweithlu yn ystyried adroddiad manwl am Wasanaethau Strôc.

Cadarnhaodd J Palmer fod cleifion sydd wedi bod yn aros am 52 wythnos am driniaeth, a chleifion canser, yn cael eu blaenoriaethu'n glinigol.

Mynegwyd pryder am y perfformiad gwael mewn nifer o feysydd, ac fe'i cydnabuwyd ei bod yn bosibl y bydd angen i'r Bwrdd drafod hyn os na fydd y sefyllfa'n gwella.

Wrth ymateb i gwestiwn am Ddangosydd 34, sef y gofyniad i gwblhau hyfforddiant Llywodraethu Gwybodaeth, dywedodd A Phillimore fod y rhan fwyaf o ddata o hen ardal Cwm Taf a Phen-y-bont ar Ogwr wedi eu cyfuno, a chytunodd i roi diweddariad i I Wells am y nifer sydd wedi gwneud yr hyfforddiant Llywodraethu Gwybodaeth yn BIP CTM. Roedd R Treharne wedi cytuno hefyd i adolygu'r sefyllfa o ran codio clinigol, a thafododd hyn ymhellach ag I Wells y tu allan i'r cyfarfod.

Rhif yr Eitem ar yr Agenda 1.5.1a

Awgrymodd N Lyons y dylai'r Tîm Gweithredol clinigol wneud mwy o ran tynnu sylw at y meysydd sy'n profi'r heriau perfformiad mwyaf, er mwyn gwella'r sefyllfa bresennol.

Diolchodd M Longley i R Treharne am gyflwyno'r adroddiad, a gofynnodd am i'r adroddiad hwn gael blaenoriaeth ar agendâu'r Bwrdd yn y dyfodol.

PENDERFYNODD y Bwrdd: **NODI'R** adroddiad.

HB/19/157

METRIGAU'R GWEITHLU A DATBLYGU SEFYDLIADOL

Cyflwynodd A Phillimore yr adroddiad a dywedodd fod y Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a'r Gweithlu wedi craffu'n fanwl ar y sefyllfa. **NODODD** Aelodau fod fformat yr adroddiad wedi ei ddiwygio er mwyn sicrhau bod ffocws ar feysydd allweddol.

Crybwyllodd N Milligan y perfformiad gwael o ran llunio rhestrau byr, a gofynnodd a oedd angen gwneud rhagor o waith gyda rheolwyr ar y mater hwn. Mewn perthynas â holiaduron gadael swyddi, gofynnodd N Milligan hefyd a oedd hynt gyrfaedd yn ymwneud â'r anallu i symud ymlaen yn eu gyrfaedd yn y sefydliad.

Wrth ymateb i bwynt a godwyd am faterion ansawdd a diogelwch o ran staffio a'r angen ai peidio i rannu adroddiadau'n rheolaidd â'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ar y cyd â'r Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a'r Gweithlu, dywedodd S Hopkins i drafodaethau gael eu cynnal am ddatblygu adroddiadau dangosfwrdd integredig ac y dylai hyn gynorthwyo'r gwaith o fynd i'r afael â'r fath faterion. Nododd hefyd y gellid eu rhannu â Phwyllgorau'r Bwrdd fel y bo'n briodol.

PENDERFYNODD y Bwrdd: **NODI'R** adroddiad.

HB/19/158

DIWEDDARIAD CYLLID AR GYFER MIS 7

Cyflwynodd S Webster yr adroddiad a thynnodd sylw at y meysydd allweddol canlynol:

- Gorwariant dirprwyedig Mis 7 oedd £2.4m, oedd yn cyfateb i ddirywiad o £0.4m o gymharu â sefyllfa Mis 6.
- Llwyddwyd i glirio costau o fewn y gyllideb ym mis 7 fel y rhagwelwyd, sydd wedi ychwanegu elfen arall o risg mewn perthynas â'r sefyllfa.
- Bydd llwyddiant recriwtio dramor yn effeithio ar y sefyllfa ariannol.
- Mae cyfran BIP CTM o orwariant Cronfa Risg Cymru yn debygol o fod rhyw £1.8m.
- Mae canlyniad yr adolygiad o ddyrannu cyllid yn sgil newid y ffin i gynnwys Pen-y-Bont ar Ogwr eto i gael ei gyhoeddi.

Rhif yr Eitem ar yr Agenda 1.5.1a

- Er mwyn cyflawni'r rhagamcaniad, bydd rhaid i ragamcaniadau Cyfarwyddiaethau wella fel ym mis 6.

NODODD Aelodau bwysigrwydd y cyfarfodydd uwch-gyfeirio sy'n cael eu cynnal gyda Chyfarwyddiaethau, ac y byddai trafodaethau yn y cylch nesaf o gyfarfodydd yn canolbwyntio ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol. Dywedodd S Hopkins fod gwaith ar y gweill gyda Chyfarwyddwyr Gweithredol i sicrhau bod cydbwysedd y trafodaethau yn briodol.

NODODD Aelodau i drafodaeth fanwl am y sefyllfa ariannol gael ei chynnal yn y Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a'r Gweithlu, lle cydnabuwyd pwysigrwydd cynnal trafodaethau cytbwys hefyd.

PENDERFYNODD y Bwrdd: **NODI'R** adroddiad.

HB/19/159

DATBLYGU CYNLLUN TYMOR CANOLIG INTEGREDIG (IMTP) 2020-2030, A DIWEDDARIAD AM IMTP CHWARTER 2 2019/20

Cyflwynodd R Treharne yr adroddiad a dywedodd fod y Bwrdd wedi cynnal trafodaethau am ddatblygiad IMTP ar gyfer 2020-2023. **NODODD** Aelodau fod trafodaeth fanwl wedi ei threfnu ar gyfer Sesiwn Datblygu'r Bwrdd ym mis Rhagfyr 2019, lle bydd ffocws ar y gwasanaethau hynny y credir eu bod yn fregus, ynghyd â'r gwasanaethau hynny y mae angen eu datblygu.

NODODD Aelodau fod yr IMTP wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a'r Gweithlu, ac y bydd hefyd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yr wythnos wedyn. **NODODD** Aelodau y bydd yr IMTP yn cael ei ddatblygu ymhellach dros y wythnosau nesaf, cyn ei gyflwyno'n derfynol ym mis Ionawr 2020.

PENDERFYNODD y Bwrdd: **NODI'R** adroddiad.

HB/19/160

Y STRATEGAETH IECHYD A GOFAL INTEGREDIG

Cyflwynodd R Treharne yr adroddiad a dywedodd y bydd y Strategaeth, a elwid yn Strategaeth Gwasanaethau Clinigol gynt, yn cael ei chwblhau yn raddol ac y bydd fersiwn drafft ar gael erbyn diwedd y flwyddyn galendr. Nododd hefyd y bydd y strategaeth derfynol yn ei lle erbyn 31 Mawrth 2020. **NODODD** Aelodau y bydd y strategaeth yn cael ei thrafod ddiwedd Rhagfyr 2019 yn Sesiwn Datblygu'r Bwrdd.

PENDERFYNODD y Bwrdd: **NODI'R** adroddiad.

DIWEDDARAD CYFALAF CHWARTEROL

Cyflwynodd R Treharne yr adroddiad, a dywedodd fod disgwyl i'r Bwrdd Iechyd gyrraedd ei darged ar gyfer y Terfyn Adnoddau Cyfalaf.

NODODD Aelodau nifer o gyflawniadau arwyddocaol, yn eu plith agor yr Uned Gofal Lliniarol yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, adnewyddu Canolfan Iechyd Tonypany, ariannu sganiwr CT newydd yn Ysbyty Tywysoges Cymru a chael cymeradwyaeth gan y Gweinidog ar gyfer Cam 2 Achos Busnes Ysbyty Dewi Sant.

NODODD Aelodau y bydd Cam 2 yr Achos Busnes ar gyfer Llawr Gwaelod a Llawr Cyntaf Ysbyty'r Tywysog Siarl yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2020, ac y bydd angen cynnal trafodaethau â'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr am y strategaeth o ran contractau.

Dywedodd K Montague ei fod yn dda ganddo weld cynlluniau ar waith a'i fod yn falch o weld y gwaith yn mynd yn ei flaen o ran ffitiadau i atal crogi a thagu. Mynegodd K Montague ei bryder am ffitrwydd yr ystâd Iechyd Meddwl, a **NODODD** Aelodau fod staff gwasanaethau yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn y Tîm Cyfalaf o ran cynlluniau ac anghenion yn y dyfodol. Ychwanegodd S Hopkins fod y mater o ansawdd rhai agweddau ar yr ystâd iechyd meddwl wedi'i ddwyn i sylw Llywodraeth Cymru.

PENDERFYNODD y Bwrdd: **NODI'R** adroddiad.

ADRODDIAD CYNNYDD Y RHAGLEN TRAWSNEWID RHANBARTHOL

Cyflwynodd R Treharne yr adroddiad a dywedodd y bydd yr adroddiad hwn yn cael ei fonitro gan y Pwyllgor Iechyd Sylfaenol a Chymunedol, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau o hyn ymlaen. **NODODD** Aelodau fod nifer o gynlluniau y bydd angen eu gweithredu yn y flwyddyn newydd, a bod Llywodraeth Cymru wedi cynnal dau weithdy a oedd yn dda iawn ym marn partneriaid.

Tynnodd S Webster sylw at bwysigrwydd sicrhau bod cynllun cynaliadwyedd yn cael ei ddatblygu a'i weithredu, a dywedodd A Lawrie y gallai fod yn ddefnyddiol i'r Bwrdd gael gweld y gwaith sydd ar y gweill yn ardal Pen-y-Bont ar Ogwr o ran trawsnewid rhanbarthol.

Wrth ymateb i gais am eglurder o ran trefniadau llywodraethu, dywedodd R Treharne fod y Bwrdd Partneriaethau Rhanbarthol wrthi'n bwrw golwg dros hyn, ac y bydd pob partner hefyd yn gyfrifol am geisio sicrwydd. **NODODD** Aelodau y bydd adroddiadau cynnydd rheolaidd yn cael eu

Rhif yr Eitem ar yr Agenda 1.5.1a

cyflwyno i'r Bwrdd, ac i'r Pwyllgor Iechyd Sylfaenol a Chymunedol, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau.

PENDERFYNODD y Bwrdd: **NODI'R** adroddiad.

HB/19/163

ADRODDIAD BLYNYDDOL AROLYGIAETH GOFAL IECHYD CYMRU 2018-2019

Dywedodd G Galletly fod yr adroddiad yn cael ei roi gerbron y Bwrdd er cyflawnder ar ôl i gynrychiolwyr o'r Arolygiaeth ymweld yn gynharach yn ystod y flwyddyn, i Aelodau roi eu hadborth.

O ran IRMER, dywedodd J Palmer, er cywirdeb, fod dau gynllun gweithredu wedi eu cyflwyno, ym mis Ionawr a mis Mehefin 2019.

PENDERFYNODD y Bwrdd: **NODI'R** adroddiad.

HB/19/164

ADRODDIAD CADEIRYDD Y PWYLLGOR

DERBYNIODD y Bwrdd yr adroddiad a **PHENDERFYNWYD**:

- **NODI'R** adroddiad;
- **CYMERADWYO** cofnodion cyfarfodydd pwyllgor y Bwrdd;
- **CYMERADWYO** Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl 2018/19, gan gynnwys y Cylch Gorchwyl;

HB/19/165

UNRHYW FATERION ERAILL

Nid oedd unrhyw faterion eraill.

HB/19/166

DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Bydd y cyfarfod nesaf Ddydd Iau 30 Ionawr 2020.

LLOFNOD:.....

M Longley, Cadeirydd

DYDDIAD:.....